# Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

## Cofnodion (RDC(3)-02-08)

**Dyddiad: 31 Ionawr 2008**
**Amser: 9.00am – 11.00am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Alun Davies (Cadeirydd), Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Mick Bates, Sir Drefaldwyn
Alun Ffred Jones, Arfon
Brynle Williams, Gogledd Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Claire Morris, Clerc
Joanne Clinton, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Yr Athro Paul Milbourne, Arsyllfa Wledig Cymru
Nicola Lloyd, Y Comisiwn Cymunedau Gwledig

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

### Eitem 2: Ymchwiliad i dlodi ac amddifadedd yng Nghymru wledig: sesiwn dystiolaeth

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Athro Paul Milbourne o Arsyllfa Wledig Cymru i'r cyfarfod ac fe'i gwahoddodd i gyflwyno sylwadau agoriadol. Yna gwahoddwyd yr Aelodau i roi sylwadau a holi'r tyst.

2.2 Nododd y Pwyllgor y bydd yr Arsyllfa Wledig yn cyflwyno'i chanfyddiadau diweddaraf i Dîm Polisi Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru yn fuan. Cytunodd y Pwyllgor i ofyn i'r tîm a fydd yn bosibl i'r Athro Milbourne gyflwyno'r canfyddiadau i'r Pwyllgor wedi iddynt gael eu cyflwyno.

### Eitem 3: Ymholiad i dlodi ac amddifadedd yng Nghymru wledig: galw am dystiolaeth ysgrifenedig

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Nicola Lloyd o'r Comisiwn Cymunedau Gwledig i'r cyfarfod ac fe'i gwahoddodd i gyflwyno ei phapur. Yna gwahoddwyd yr Aelodau i roi sylwadau a holi'r tyst.

3.2 Cytunodd y tyst i ddarparu copi o adroddiad diweddaraf y Comisiwn Cymunedau Gwledig ar brawfesur polisïau gwledig.